**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.cymru/SeneddPAPA
0300 200 6565

Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd y Gymraeg

30 Tachwedd 2022

Ymchwiliad i gyllido Comisiynwyr

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd yn casglu gwybodaeth am ariannu Comisiynwyr yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ym mis Ebrill 2022 yn ymwneud â'i waith craffu blynyddol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Yn ei adroddiad, roedd y Pwyllgor yn argymell:

> *... bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal adolygiad o drefniadau adnoddau Comisiynwyr Cymru. Gallai'r adolygiad hwn ystyried a oes modd sicrhau unrhyw arbedion maint drwy rannu rhai swyddogaethau cefn swyddfa a staff.*

Er mwyn helpu gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y materion a ganlyn:

- Rolau a chyfrifoldebau
    - Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau eich swyddfa, ynghyd â gwybodaeth am sut y gall y rhain fod wedi newid dros amser, fel yr awgrymir gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn ei Adroddiad. A fu unrhyw effaith ariannol yn sgil newidiadau o'r fath a manylion y goblygiadau hynny.

- Sut mae cost wirioneddol cyflawni eich swyddogaethau yn cymharu ag unrhyw amcangyfrifon cost a allai fod wedi'u gwneud ar yr adeg y sefydlwyd eich rôl (fel unrhyw amcangyfrifon a nodir yn y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cefnogi'r ddeddfwriaeth), a'r rhesymau i egluro unrhyw amrywiadau (lle bo'n briodol).

- Proses gymeradwyo'r gyllideb:

  - Safbwyntiau ar broses y gyllideb, gan gynnwys amserlenni ac ymgysylltu â Gweinidogion Cymru a swyddogion, fel y rheini mewn Timau Partneriaeth (noddwyr) o fewn adrannau Llywodraeth Cymru. A oes unrhyw wybodaeth a ddarperir gan swyddogion Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno'ch amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel asesiad gorau Llywodraeth Cymru o lefel y cyllid sydd ar gael yn y dyfodol a ffactorau i'w hystyried wrth baratoi'r amcangyfrif?
  - Pa broses sydd ar waith i gytuno ar unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif? Sut mae'r rhain yn cael eu cyfathrebu a'u cytuno? Pa mor arwyddocaol y maent wedi bod a pha effaith y maent wedi'i chael ar waith eich swyddfa a'r cynlluniau ar ei chyfer?
  - Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 a Chyllideb amlflwydd gyntaf Cymru ers 2017. I ba raddau yr ydych chi a Llywodraeth Cymru yn newid i ddull gweithredu 'Telerau Llywodraeth', tra'n cydymffurfio â'r gofyniad statudol i gyflwyno amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Beth yw'r prif fanteision o wneud hyn?

- Cydweithio, gan gynnwys rhannu swyddogaethau a staff:

  - Yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2013-14, archwiliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad gyda'r Comisiynwyr ar y pryd a allent sicrhau arbedion drwy fwy o gydweithio ac o bosibl, drwy rannu swyddogaethau cefn swyddfa. Yn ei Adroddiad, *Craffu ar Gyfrifon 2013-14* (Mawrth 2015), gwnaeth y Pwyllgor grynhoi y dystiolaeth ac argymell:

    *... bod ymdrechion i gyflawni effeithlonrwydd a mwy o gynhyrchiant trwy gydweithredu, gan gynnwys swyddogaethau'r swyddfa gefn, yn parhau rhwng y Comisiynwyr a'r Ombwdsmon, a bod hyn yn cael ei gyflwyno yn eu hadroddiadau blynyddol a chyfrifon 2014-15.*

Mae'r ymatebion i'r Adroddiad wedi'u cynnwys ar dudalen y Pwyllgor ar gyfer craffu ar gyfrifon 2013-14.

Byddai’r Pwyllgor yn croesawu’r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae’r Comisiynwyr yn cydweithredu, a’r manteision sy’n deillio o unrhyw gydweithio, yn ogystal ag unrhyw rannu swyddogaethau gweinyddol a staff. Unrhyw wersi a ddysgwyd o'r profiadau hyn: beth weithiodd yn dda; sut wnaethoch chi liniaru unrhyw risgiau o ran atebolrwydd; pa arbedion wnaethoch chi; a pham efallai nad ydych wedi parhau â threfniadau o'r fath.

  - Manylion am unrhyw rannu swyddogaethau neu staff â chyrff/rheoleiddwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.

- Y sefyllfa ariannol bresennol a heriau’r dyfodol:

  - Asesiad o sefyllfa ariannol bresennol y sefydliad ac asesiad o anghenion y dyfodol yng nghyd-destun y pwysedd ar gyllid cyhoeddus.
  - Effaith dynodiad eich swydd yn sgil y newidiadau i'r Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ar eich sefyllfa ariannol bresennol ac yn y dyfodol. Beth oedd y prif heriau wrth symud i’r trefniadau newydd a beth ydych chi’n ei weld fel y newid(iadau) mwyaf arwyddocaol o ganlyniad iddynt?

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 13 Ionawr 2023: Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd am gymryd tystiolaeth lafar gennych chi.

Mae canllawiau ar baratoi tystiolaeth ysgrifenedig i’w cael ar wefan y Senedd .

Datgelu gwybodaeth

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen polisi’r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth cyn cyflwyno gwybodaeth i’r Pwyllgor. Fel arall, gellir gofyn am gopi caled o'r polisi hwn drwy gysylltu â Fay Bowen, y Clerc (0300 200 6565) SeneddPAPA@senedd.cymru

Yn gywir

Mark Isherwood

Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg/We welcome correspondence in Welsh or English.